

Gwers wyddoniaeth – gwaed

(Tua awr)



Deilliannau dysgu

- **Bydd yr holl fyfyrwyr yn:** deall beth yw trallwysiad gwaed, a bod trallwysïadau'n arbed bywydau bob dydd; gwerthfawrogi bod ar lawer o bobl angen trallwysïadau gwaed rhywbryd neu'i gilydd yn eu bywydau; deall bod datblygiadau meddygol yn golygu bod galw cyson am drallwysïadau gwaed; gallu meddwl yn weithredol am ddod yn rhoddwyr gwaed eu hunain.
- **Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn:** deall swyddogaethau'r rhannau o waed; gwybod bod y rhain yn cael eu defnyddio at wahanol ddibenion mewn gwahanol sefyllfaoedd a rhoi rhesymau dros yr angen am drallwysiad gwaed; gwybod bod gr p gwaed yn nodwedd etifeddol ac mae dim ond rhai grwpiau sy'n cydweddu â'i gilydd; deall yr angen am roi gwaed yn rheolaidd i ddiwallu'r galw.
- **Bydd rhai myfyrwyr yn:** deall natur rhai o'r clefydau sydd angen trallwysïadau gwaed; gallu esbonio pam mae angen rhoddwyr o bob cefndir ethnig.

Gweithgaredd cychwynnol (15 Munud)



Arweiniwch y myfyrwyr drwy'r [cwis gwir a gau ar waed](#) ar y wefan. Mae'r cwis yn atgrynhai'r hyn mae'r myfyrwyr yn gwybod eisoes ynghylch gwaed, yn cywiro camdybiaethau, ac yn eu hysgogi i feddwl pam gallai fod angen trallwysiad gwaed ar rywun.

Gweithgaredd dosbarth cyfan (15 Munud)



Dangoswch y [cyflwyniad PowerPoint ar waed](#) o'r wefan. Esboniwch y rhannau o'r gwaed a'u swyddogaethau: celloedd gwaed coch a gwyn, plasma a phlatennau (*gweler sleidiau 1-5*).



Esboniwch roi gwaed a grwpiau gwaed (*gweler sleidiau 6-8*). Mae'r sleid olaf (*sleid 9*) yn rhoi esboniad manwl o deipiau gwaed ac antigenau.

Efallai y byddwch yn dymuno defnyddio'r *tabl amcangyfrif teip gwaed* ar www.blood.co.uk/pages/blood_type_calculator.html, er y dylech fod yn sensitif i'r materion a allai godi mewn perthynas â rhieni biolegol.

